Canlyniad sgrinio eich baban:
Mae amheuaeth bod gan eich baban isthyroidedd cynhenid (CHT)

Mae prawf smotyn gwaed eich baban newydd-anedig (prawf pigo sawdl) yn awgrymu y gallai fod isthyroidedd cynhenid arno (CHT).

Bydd angen rhagor o brofion ar eich baban i gadarnhau a oes CHT arno.

Beth yw CHT?

Mae CHT yn gyflwr prin y gellir ei drin.

Nid yw babanod y mae CHT arnynt yn cynhyrchu digon o'r hormon thyrocsin, sy'n sylwedd naturiol a gynhyrchir yn y corff. Mae thyrocsin yn cael ei gynhyrchu gan y chwarren thyroid yn y gwddf. Os na chaiff ei drin, gall CHT arwain at broblemau iechyd hirdymor.

O gael diagnosis a thriniaeth gynnar, gall babanod â CHT dyfu a datblygu'n normal, a gall pobl â CHT fwynhau bywydau iach a gweithgar.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd tîm arbenigol yn trefnu rhagor o brofion i gadarnhau a oes gan eich baban CHT.

Efallai y bydd yn cymryd ychydig ddyddiau i chi dderbyn canlyniadau'r profion hyn.

Os bydd y profion yn cadarnhau bod gan eich baban CHT, byddwch yn derbyn rhagor o gefnogaeth a gofal gan y tîm arbenigol. Byddant yn egluro'r cyflwr yn fanylach, yn ateb eich cwestiynau ac yn dechrau triniaeth yn gyflym.

Sut y gallech chi fod yn teimlo:
Mae'n gwbl naturiol teimlo'n bryderus neu'n ansicr pan fydd angen profion pellach ar eich baban. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a chefnogaeth gan:

British Thyroid Foundation.

- Gwefan: www.btf-thyroid.org/congenital-hypothyroidism-overview
- Ffonio:01423 810093
- E-bost: info@btf-thyroid.org

Manylion cyswllt ar gyfer y tîm arbenigol:

© Hawlfraint 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl.
Ni chewch atgynhyrchu unrhyw ran o'r daflen hon heb ein caniatâd ni.
Fersiwn 2, Mai 2026